Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

# Yn yr oes sydd ohoni

*(cyfieithiad o In These Times gan Connor Allen)*

Yn yr oes sydd ohoni, sy'n llai sicr nac erioed,
a'r môr â mwy o blastig nac o bysgod hyd yn oed;
a dyn yn mynnu clirio'r tir a thorri lawr y coed,
breuddwydiwn heb gyfyngiad ond rhaid meddwl yn gall…

Yn yr oes sydd ohoni, cyn i'r môr ein llyncu'n llwyr,
gallwn daclo newid hinsawdd, 'dyw hi ddim yn rhy hwyr;
a phlannwn goed blodau o'r Wyddfa i Benrhyn Gŵyr,
gan rannu'r neges bwysig hon, o'r naill i'r llall…

Yn yr oes sydd ohoni, mae gan natur ryw hen rin
mewn llefydd hardd cuddiedig, sy'n falm i enaid blin;
a harddwch cyfrin Cymru fydd yn helpu ni rhoi min
ar ein gweledigaeth amgen wrth arwain y dall…

Yn yr oes sydd ohoni mae cydweithio yn hanfodol
ac ar draws Cymru gyfan, bydd pob oed yn ddylanwadol;
gyda'n gilydd, dros ein planed, gallwn warchod ein dyfodol
a daw gobaith i lenwi'n calonnau'n ddi-ball

*cyfieithwyd gan Ifor ap Glyn, Bardd Cenedlaethol Cymru*

# In These Times

In these times of great uncertainty
2050 will have more plastic than fish in the sea
Humanity focused on deforestation and cutting down trees
We have to dream big and think smart

In these times of life below water and life on land
Let's protect the future, come take our hand
plant blossoming trees from Snowdonia to Gower sands
And let's all make an impactful start

In these times where nature can be our friend
Exploring the hidden charm puts our souls on the mend
There are pockets of Welsh beauty I cannot comprehend
We need future generations to take part

In these times where connections to each other and outside is essential
And all across Wales, across generations there's a sea of potential
Where if we come together the impact on the climate can be influential
There's hopefulness that fill my heart

*Connor Allen, Children's Laureate Wales 2021-23*

Ysbrydolwyd y gerdd hon gan ddisgyblion o Penyrheol Primary School
This poem was inspired by pupils from Penyrheol Primary School

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales
CHILDREN'S LAUREATE WALES.